

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

NEGES O GEFNOGAETH

“Mae’n bwysig ein bod ni oll yn gwerthfawrogi a pharchu hanes a diwylliant cyfoethog Cymru. Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn chwarae rhan bwysig yn annog pobl ifanc ledled Cymru i weithio gyda’u teuluoedd a’r gymuned leol i archwilio’r gorffennol a dysgu ganddo.

Fy llongyfarchiadau, felly, i bawb sydd yn rhan o’r Fenter, wrth iddi gyrraedd ei phen-blwydd yn bump ar hugain oed.”



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DIOLCH I’N NODDWYR

Ni fyddai’r gystadleuaeth wedi bodoli a pharhau heb gefnogaeth y noddwyr. Yn ystod y 25 mlynedd bu Syr Julian Hodge (Sefydliad Jane Hodge) yn un o’n noddwyr pennaf ac yn y blynyddoedd diweddar cafwyd cefnogaeth sylweddol gan Grŵp Admiral ccc (Sefydliad Moondance).



Cafwyd cefnogaeth oddi wrth ystod o noddwyr eraill – Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, CADW, Casgliad y Werin Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Undeb Rygbi Cymru, nifer o gymdeithasau hanes sirol a lleol ac unigolion hael.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Sefydlwyd MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG 25 mlynedd yn ôl yn dilyn cyfarfod a drefnwyd gan y Fonesig Trotman-Dickenson o dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig. Derbyniodd ei phwyllgor argymhelliad i greu cystadleuaeth yn ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm hanes yng Nghymru.

Amcanion y gymdeithas oedd annog pobl ifanc mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac mewn dosbarthiadau a cholegau chweched dosbarth i ymddiddori yn nhreftadaeth Cymru, i werthfawrogi cyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau iddi, ac i helpu i'w diogelu a chyfrannu ati eu hunain.

Y Fonesig Trotman Trotman-Dickenson oedd cadeirydd cyntaf y gymdeithas a bu'n agos ei chysylltiad byth ers hynny. Cafodd ei holynu gan un o haneswyr adnabyddus Cymru, yr Athro Chris Williams ac yna'r newyddiadurwraig lawrydd, Carolyn Hitt. Catrin Stevens, awdur a darlithydd, yw'r cadeirydd presennol.



Y Fonesig Trotman-Dickenson



Yr Athro Chris Williams



Carolyn Hitt

Y Fonesig Danusia Trotman-Dickenson

Eleni, mae'n briodol talu teyrnged i'r Fonesig Danusia Trotman-Dickenson yn llyfryn gwobrwyo MYDG, oherwydd heb ei menter hi yn 1990 a'i harweiniad ymroddgar gydol y 22 mlynedd gyntaf, ni fyddem yma heddiw.

Ganwyd Danusia Trotman-Dickenson yn Warsaw, Gwlad Pwyl. Pan oresgynnwyd Gwlad Pwyl ym mis Medi, 1939, roedd hi'n ddeng mlwydd oed. Yn 1940, gorfodwyd hi a'i theulu i ffoi rhag dinistr y rhyfel ac ymhen amser daeth i fyw i Brydain. Yn ystod y rhyfel gwasanaethodd ei thad ym myddin Gwlad Pwyl gan ymladd ochr yn ochr â lluoedd arfog Prydain.

Cafodd ei haddysg mewn ysgolion yn yr Alban ac enillodd ei gradd gyntaf ym Mhrifysgol Caeredin. Enillodd radd Meistr yn y London School of Economics ac yn ddiweddarach dyfarnodd Prifysgol Caeredin radd Doethur iddi.

Bu'n addysgu economeg a chyllid cyhoeddus ym Mhrifysgol Manceinion, Prifysgol Caeredin, Prifysgol Aberystwyth, y Brifysgol Agored ac yng Ngholeg Polytechnig Cymru, lle dyrchafwyd hi'n Athro. Mae wedi byw yng Nghymru ers dros 30 mlynedd.

Mae'r Athro Trotman-Dickenson yn awdur nifer o lyfrau a thros 50 o bapurau mewn cyhoeddiadau academiaidd a phroffesiynol. Mae hi bob amser wedi annog pobl ifanc yn frwd i ymwneud ag addysg a bu'n gefn i addysgu myfyrwyr Lefel A Economeg yn ne Cymru.

Yn 1990, dan nawdd Grŵp Celfyddydau'r Sefydliad Materion Cymreig, ffurfiodd Fenter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig, a hi oedd y Cadeirydd Gweithredol am 22 o flynyddoedd. Cafodd ei hurddo'n Llywydd Anrhydeddus yn 2012.

Ers iddi ymddeol mae wedi gweithio'n ddiflino i gefnogi ystod o fudiadau sydd wedi arddangos ymroddiad dros weithio dros gydraddoldeb ac yn erbyn camwahaniaethu.

Yn 2010 derbyniodd y Fonesig Danusia MBE am ei gwasanaeth i fyd addysg.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Neges gan y Cadeirydd

Catrin Stevens Darlithydd ac Awdur

Yn gyntaf oll - llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus yn 25 oed! Mae 2015 yn flwyddyn i ddathlu llwyddiannau'r gorffennol a chynllunio at y dyfodol. Bu Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn ffynhonnell ysbrydoliaeth ers ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl, yn sgil gweledigaeth y Cadeirydd cyntaf, y Fonesig Trotman-Dickenson, ac yn rhyfeddol, er gwaethaf newidiadau enfawr ym myd addysg, pery mor berthnasol ag erioed. Erbyn hyn, mae'n siŵr fod miloedd ar filoedd o ddisgyblion o bob oed, wedi cystadlu am wobrau'r Fenter. Trwyddynt, mae'r disgyblion wedi cyfoethogi, nid yn unig eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes eu bröydd a'u cenedl, ond wedi meithrin sgiliau eraill ym mhob maes yn y cwricwlwm. Wrth ymweld â'r ysgolion eleni, rhyfeddod i mi oedd gweld y defnydd dychmygus o'r dechnoleg ddiweddaraf i ymchwilio, cofnodi a dehongli hanes traddodiadol ei hanfod. Yn sicr, dyma un agwedd sydd wedi newid yn sylfaenol ers sefydlu'r Fenter hon nôl yn 1990.

Ond un peth sydd ddim wedi newid yw ymroddiad yr athrawon hynny sy'n ysbrydoli'u disgyblion i greu prosiectau mor greadigol a diddorol. Mae dyled y Fenter yn enfawr iddynt ac erfyniwn arnynt i barhau i'n cefnogi wrth i ddysgu Hanes gael ei ymyleiddio fwyfwy yn ein hysgolion. Gobeithio bod y ffaith fod ein hathrawon dan gyfaredd y pwnc yn llwyddo i danio'u disgyblion a'u hudo hwythau i fod yn fyfyrwyr hanes amatur neu broffesiynol am weddill eu bywydau.

Rhyfeddod arall ynglŷn â'r gystadleuaeth hon yw bod ein noddwyr wedi parhau mor ffyddlon a hael eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Unwaith eto eleni fe welwch restr hir ohonynt yn y llyfryn hwn. Hebddynt, ni fyddai cystadleuaeth, ac yn sicr ni fyddai Seremoni Wobrwyo a chyfle i ddathlu'r modd y mae'r gystadleuaeth yn codi ymwybyddiaeth o'n hanes a'n treftadaeth Gymreig a, thrwy hynny, yn hyrwyddo sgiliau bywyd ein pobl ifanc. Diolch yn fawr iddynt.

Dyma fy mlwyddyn lawn gyntaf yn Gadeirydd Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. Deuthum i'r 'barchus arswydus swydd' hon o gefndir addysg uwch ac yn awdur llyfrau ar hanes Cymru i blant. Dwedodd rhywun unwaith petai cathod yn ysgrifennu hanes mai hanes cathod fyddai eu testun. Felly finnau, Cymru yw fy ngwlad ac felly amdani yr ysgrifennaf. A dyna paham, yn ysgolion Cymru y credaf y dylem ddechrau wrth ein traed, gyda'n treftadaeth a'n diwylliant ni'n hunain cyn mentro i astudio a gwerthfawrogi diwylliannau eraill. Mae'r Fenter, trwy'r gystadleuaeth hon, yn hyrwyddo'r union egwyddor sylfaenol hon ac mae'n fraint bod yn gadeirydd arni.

Ond fel tîm y gweithiwn yn y Fenter, ac mae gen innau gynheiliaid parod a gweithgar, yn arbennig yr ymddiriedolwyr, fy nghyd swyddogion, ein beirniaid a'r pwyllgor sy'n rhoi oriau o'u gwirfodd i fynychu pwyllgorau a theithio ysgolion ledled Cymru'n cloriannu cyfraniadau'r ysgolion. Mae'n briodol eleni, er hynny, ein bod yn cydnabod dau sydd wedi gwasanaethu'r Fenter yn ddibrin a ffyddlon am bron i 25 mlynedd, sef yr Ymddiriedolwyr, David Maddox a Walter Jones. Diolch o galon iddynt am eu harweiniad ysbrydoledig ar hyd y blynyddoedd. Maent wedi gosod seiliau cadarn iawn ar gyfer y chwarter canrif nesaf.



Catrin Stevens

YR HER I YSGOLION

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn gwahodd ysgolion babanod, cynradd, uwchradd ac arbennig (ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol), a Cholegau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach i wneud prosiectau treftadaeth a'u cyflwyno ar gyfer y gystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol.

Mae'r prosiectau hyn yn gofyn am ymchwilio, casglu defnyddiau, dadansoddi a gwerthuso. Gall y deilliannau fod ar ffurf llyfrynnau, arddangosfeydd, perfformiadau, gwaith adfer, modelau a deunyddiau sy'n arddangos sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Caiff gwaith pobl ifanc ei asesu, gan ystyried y lefel briodol o lythrennedd, rhifedd, a sgiliau technoleg gwybodaeth. Anogir disgyblion i ddenu eu cymunedau a phobl o genedlaethau gwahanol i gyfrannu at eu prosiectau, ac i rannu eu darganfyddiadau.

Hoffem ddiolch i'r athrawon a'u disgyblion am gymryd rhan yn y Fenter ac am gyflwyno prosiectau o safon uchel dros ben.

AMGUEDDFA CYMRU

Mae Ymddiriedolwyr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn arbennig o ddiolchgar i Gyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, David Anderson, am ganiatáu cynnal y seremoni wobrwyo yn yr Amgueddfa. Diolch hefyd i'r holl staff sydd wedi cyfrannu at drefnu'r digwyddiad ac i'r adran arlwyyo. Bu cyngor a chefnogaeth Nia Williams, aelod o bwyllgor MYDG, yn arbennig o werthfawr.

Mae'n briodol iawn fod seremoni wobrwyo MYDG yn cael ei chynnal yn Amgueddfa Cymru, gan mai yma, bum mlynedd ar hugain yn ôl y lansiwyd y Fenter, a dychwelodd y seremoni yma sawl gwaith ers hynny.

Mae'n briodol hefyd oherwydd bod yr adeilad yn gartref i gymaint o dystiolaeth a gwybodaeth am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Yn 2017 bydd arddangosfa bwysig newydd am hanes Cymru yn cael ei hagor yma.

YSGOL UWCHRADD FITZALAN

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gefnogaeth y prifathro Mrs. Cath Bradshaw a'r llywodraethwyr am ganiatáu i fand dur yr ysgol roi'r datganiad cerddorol. Diolch i'r disgyblion ifanc am gytuno i gymryd rhan ac i'r pennaeth cerdd, Rachel Morgan-Jones a Wahda am ei gwaith caled yn paratoi'r band ar gyfer y perfformiad.

NODDWYR, GWOBRAU A GRANTIAU

Cydnabyddiaeth

Hoffai Pwyllgor Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ddiolch a mynegi ein gwerthfawrogiad i lawer o bobl, cwmnïau a chymdeithasau sydd wedi bod o gymorth mewn amrywiol ffyrdd. Rhoddodd rhai gyfraniadau hael, rhoddodd eraill yn ddibrin o'u hamser i weithio'n wirfoddol ar ran y Fenter, i ddod i'r seremonïau gwobrwyo, i gyflwyno gwobrau ac i gyfarfod y bobl ifanc sy'n eu derbyn.

Grŵp Admiral ccc (Ymddiriedolaeth Moondance) (gwobrau £12,000 + £3000 gweinyddu)	£15000
Syr Julian Hodge (Sefydliad Jane Hodge)	£5000
Casgliad y Werin Cymru	£1000
Cymdeithas Athrawon Hanes Cymru	£750
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	£600
Gwobr Goffa Gareth Hopkins	£500
Gwobr Goffa Owen Jones	£500
Archif Menywod Cymru	£300
Into Film Cymru	mewn da
Undeb Rygbi Cymru (Crys Rygbi wedi ei arwyddo gan Dîm Cymru)	mewn da
Cymdeithas Archaeoleg Cambrian – Gwobr Blodwen Jarman ac aelodaeth	£250
Cymdeithas Hanes Morgannwg, Gwobr Goffa Patricia Moore	£250
Cyfeillion Amgueddfa Sir Gaerfyrddin	£250
Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips	£250
Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin	£200
Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch (Gwobr Goffa Trefor Rees ac Eric Griffith)	£200
Soroptimyddion Rhyngwladol Y Barri a'r Fro	£200
Gwobr 'Hanes Atgas'	£200
Gwobr Pwyllgor MYDG	£150
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	mewn da
Gwobr Goffa Herbert Hewell	£100
Cyngor Llyfrau Cymru	£100 (tocynnau llyfr)

Sefydliad Korber - Gwobr Eustory

Mynychu Cynhadledd Ryngwladol

Tariannau

Tariannau Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
(Cyflwynir i'r gorau ym mhob categori)

Grantiau a Nawdd mewn Da

CADW	£2,000
Seer Design	Cefnogaeth TG
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru	

AELODAU PWYLLGOR MENTER YSGOLION Y DREFTADAETH GYMREIG

Y Fonesig Danusia Trotman-Dickenson MBE Llywydd Anrhydeddus am oes

- Catrin Stevens* (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr)** Cyn-bennaeth Hanes Coleg y Drindod, Caerfyrddin
- Ann Dorsett*** Swyddog Amgueddfa (wedi ymddeol)
- David Maddox OBE* (Ymddiriedolwr)** Ymgynghorydd Hanes y Fenter Cyn-Ddirprwy Brif Ymgynghorydd ESIS
- Elaine Knight *** Uwch Ddarlithydd ac Arweinydd Rhaglen Dystysgrif Addysg Uwch mewn Astudiaethau Treftadaeth, Prifysgol De Cymru
- Walter Jones* (Ymddiriedolwr)** Trysorydd Cyn-bennaeth Gwasanaeth Ysgolion: Amgueddfa Werin Cymru
- Paul Nolan*** Arweinydd systemau Gogledd Cymru Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwelliant Ysgol
- Alun Morgan* (Ymddiriedolwr)** AEM, Estyn (wedi ymddeol) Cymedrolwr Prosiectau Ysgolion
- Ann Rosser*** Pennaeth y Gymraeg (wedi ymddeol) Coleg y Drindod, Caerfyrddin
- Gill Foley *** Cyd-ysgrifennydd cynorthwyol Dirprwy Bennaeth (wedi ymddeol)
- Nia Williams*** Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
- Clive Thomas *** Cyd-ysgrifennydd cynorthwyol Pennaeth (wedi ymddeol)
- Angharad Williams*** Arweinydd Tîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Geraint Bevan*** Arweinydd System Gonsortiw (ERW)
- Ray Howells** Athro Hynafiaethau Cymreig Prifysgol De Cymru
- Sandra Elson*** Arbenigwr Pwnc Hanes Cynulliad Cymru
- Wyn Williams*** Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, Sir Gaerfyrddin
- Dr Elin Jones*** Ymgynghorydd Addysg a darlledwraig
- Jeanne Evans** Dirprwy Bennaeth (wedi ymddeol), Ysgol Gyfun Sant Cenydd, Caerffili
- Dr Stuart Broomfield*** Cyn-brif Ymgynghorydd ESIS

*Aelodau o'r Pwyllgor a fu'n ymwneud â beirniadu ar gyfer Gwobrau 2015.

BEIRNIAID CYFETHOLEDIG

Hoffem ddiolch i'r beirniaid cyfetholedig hyn am eu cymorth:

Iris Hopkins, Ysgrifennydd MYDG (wedi ymddeol); Robert Howells, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg (w.y.); Miss Glenys Brayley, Dirprwy Bennaeth (w.y.); Mrs Shirley Jones, Athrawes (w.y.); Selwyn Jones, Pennaeth (w.y.); John Williams, Pennaeth ac Ymgynghorydd (w.y.); Mrs Kath Durbin, Ymgynghorydd (w.y.); Mrs Brenda Morgan, Ymgynghorydd Cyfnod Sylfaen, (w.y.); Ceri Williams, Oriol Ynys Môn, Llangefni a Paul Thomas, darlithydd mewn hanes a threftadaeth, Prifysgol De Cymru.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad Catrin Stevens (cyfieithu) a Mr David Rees, Seer Design Services.

Enillwyr Gwobrau 2015 Y Cyfnod Sylfaen

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £1000



YSGOL GYNRADD BAGLAN Castell Nedd Port Talbot

*Teitl: A picture tells a thousand words /
Mae darlun yn cyfleu mil o eiriau*

Yn dilyn ymweliad â Pharc Margam ysbrydolwyd y plant i ymddiddori yng ngwaith William Henry Fox Talbot a'r teulu Talbot. Creon nhw gyflwyniadau ar fywyd yng Nghastell Margam yn Oes Victoria, yn cynnwys drama, canu, llefaru a gwaith llafar unigol (gyda sylwebaeth Gymraeg achlysurol). Roedden nhw wedi ymchwilio manylion y cyfrifiad, mapiau a siartiau achau. Defnyddiwyd rhaglenni TG yn effeithiol ac roedd arddangosfeydd ledled yr ysgol yn dangos esiamplau manwl o waith y plant. Cryfder ychwanegol oedd y cyswllt â'r gymuned leol, gan gynnwys aelodau o'u teuluoedd, staff Castell Margam, aelodau clwb camera Castell Nedd ac aelodau o staff gwaith dur Tata. Roedd gan y plant ddealltwriaeth gadarn o sut roedd pobl yn eu hardal wedi byw yn Oes Victoria.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £600



YSGOL GYNRADD CWRT RAWLIN Caerffili

Teitl: Our School – then and now / Ein hysgol – ddoe a heddiw

Roedd y prosiect yn archwilio pedair agwedd o ddiddordeb hanesyddol yn gysylltiedig â safle'r ysgol cyn 2001: cyfrifiad 1901, yr ymweliad brenhinol â Chaerffili yn 1907, sycas Hoffman yn 1977 ac agor yr ysgol newydd yn 2001. Ailgreadau gwych oedd uchafbwynt y gwaith, a chysylltwyd yr elfennau gan 'deithiwr amser'.

Defnyddiodd y plant ystod eang o dystiolaeth wreiddiol i hyrwyddo'u hymholi, yn eu plith: gwybodaeth o'r cyfrifiad, ffotograffau o'r cyfnod, hen fapiau, papurau newydd a chyfweliadau llafar â'r staff.

Roedd y gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda ac yn tynnu ar brofiad a thrwyddynt darganfuon nhw ragor am eu hardal eu hunain. Cofnodwyd y gwaith mewn dulliau amrywiol, gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau, dyfeisio holiaduron, trosglwyddo gwybodaeth o'r cyfrifiad a llunio llinell amser.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £250



YSGOL FABANOD CWMABER
Caerffili

Teitl: **Senghennydd Pit Disaster / Trychineb Glofa Senghennydd**

Yn dilyn ymweliad ag Amgueddfa Dreftadaeth y Rhondda a gwneud cysylltiadau â'u Canolfan Dreftadaeth leol, ysgogwyd y disgyblion i ymchwilio agweddu arbennig ar hanes y diwydiant glo. Ymchwiliodd Blwyddyn 2 ffeithiau a ffigurau ynglŷn â'r drychineb leol yn Senghennydd yn 1913.

Integreiddiwyd gweithgareddau trwy brofiad i themâu'r tymor. Roeddent yn cynnwys plant yn gwneud bara ar gyfer brechdanau'r glowyr a chreu glofa ar gyfer chwarae rôl. Ymchwiliodd y plant hŷn ymhellach trwy ddefnyddio hen ffotograff yn ysgogiad a ffilmiodd ffilmiau newyddion byr i ddarlunio'r trychineb. Arddangoswyd llyfrynau wedi'u gwneud ar ipads ochr yn ochr â sawl model.

Rhoddodd gwasanaeth arbennig, a berfformiwyd â brwdfrydedd a hyder gerbron gwahoddedigion, gyfle i'r plant rannu eu casgliadau.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £250



YSGOL GYNRADD DERI
Caerffili

Teitl: **Times to Remember / Amserau i'w Cofio**

Mae'r plant wedi creu arddangosfa am y Rhyfel Byd Cyntaf yn eu hamgueddfa 'Amserau i'w Cofio' yn llyfrgell yr ysgol. Creon nhw arddangosfeydd ar gelf Rhyfeloedd Byd, arwyr rhyfel, recriwtio, cadoediad y Nadolig, y gofeb ryfel, a chwaraewyd rôl ysbyty maes. Egluron nhw'r arddangosfeydd a disgrifion nhw'r gweithgareddau cysylltiedig, megis mesur taldra, llenwi ffurflenni recriwtio a chyfrifo dogni bwyd. Hyrwyddodd hyn eu sgiliau sylfaenol.

Trwy ymchwilio i hanes milwr lleol ac i'w eiddo personol daeth y prosiect yn berthnasol iddynt. Cefnogwyd y staff a'r plant gan eu cyswllt â'r Gymdeithas Hanes leol. Mae'n amlwg fod y plant yn deall yr aberth a wnaed yn ystod y rhyfel a pham ei bod yn bwysig cofio.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £250



YSGOL GYNRADD HENGOED
Caerffili

Teitl: What was life like at Penallta mine? /
Sut le oedd Glofa Penallta?

Dechreuodd y prosiect hwn pan laniodd eitem gyffrous ac annisgwyl yn yr ystafell ddosbarth. Ysgogodd hon lawer o gwestiynau, megis “Beth yw’r gwrthrych dirgel hwn?” ac “O ble ddaeth e?” Profodd y lwmp rhyfedd o lo yn gatalydd gwych ar gyfer ymchwil pellach. Defnyddiwyd cyfrifiaduron, ffotograffau, llyfrau a chyfweliadau i ateb y cwestiynau. Defnyddiwyd geiriau allweddol fel ymchwil, darganfod, archwilio ac ymholi yn gyson gan y disgyblion.

Cipiwyd dychymyg y plant gan ymweliadau ag Amgueddfa Dreftadaeth y Rhondda a safle hen lofa Penallta. Ymhlith y gweithgareddau addas i’w hoedran roedd tynnu lluniau â siarcol a chreu ardal chwarae rôl mewn pwll glo.

Mae’r holl daith addysgol hon wedi ei darlunio trwy gyfrwng wagenni glo mewn arddangosfa yn neuadd yr ysgol.

Cyngor Llyfrau Cymru
Gwobr: tocyn llyfr £100



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

YSGOL GYNRADD EDWARDSVILLE
Merthyr Tudful

Teitl: Growing Up In Treharris / Tyfu i fyny yn Nhreharris

Canolbwyntiodd y prosiect Cyfnod Sylfaen hwn ar newidiadau, yn arbennig newidiadau yn ardal yr ysgol ei hun ac ym mywydau’r ysgol. Gwahoddwyd teidiau a neiniau i’r ysgol i siarad â’r plant am eu cyfnod nhw yn yr ysgol. Daeth un ohonynt â llun dosbarth i helpu’r disgyblion i ddeall y newid o ddoe i heddiw. Bu disgyblion B11 am dro o gwmpas yr ardal ac roedden nhw’n gallu adnabod strydoedd lleol ac adeiladau yn narluniau’r arddangosfa. Gallai disgyblion iau adnabod y newidiadau ym mywyd yr ysgol dros amser. Defnyddiodd y disgyblion i-pad a chodau QR i gael hyd i ffotograffau o’u hardal ar y Rhyngwrdd i’w helpu i adnabod newidiadau.

Gwobr Goffa Herbert Hewell

Gwobr: £100

YSGOL GYNRADD FFALDAU

Penybont-ar-Ogwr

***Teitl:* Comparing lifestyles of children today to lifestyles 100 years ago / Cymharu ffyrdd o fyw plant heddiw â ffyrdd o fyw 100 mlynedd yn ôl**

Penderfynodd y disgyblion ar dri maes ymchwil am fywyd 100 mlynedd yn ôl – bwyd, dillad a bywyd ysgol. Ymwelon nhw â'r archfarchnad leol i ddewis defnyddiau i wneud pice ar y maen a chawl. Chwilion nhw am Logo'r Ddraig i ddynodi bod y nwyddau yn dod o Gymru.

Cynhaliodd y dosbarth Meithrin ddiwrnod 1915. Ymhlith y gweithgareddau cafwyd ymweliad â'r llyfrgell i fenthyg llyfrau am 1915, chwarae gemau, a chasglu arteffactau o'r cyfnod. Ar ddiwedd y diwrnod buon nhw'n dathlu gyda pharti yn null 1915.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Enillwyr Gwobrau 2015 Ysgolion Cynradd ac Iau

Grŵp Admiral ccc

Gwobr: £1000

**YSGOL GYNRADD HEOL ALBANY
Caerdydd**

Teitl: Albany Road Military Hospital 1914 /

Ysbyty Milwrol Heol Albany 1914



Roedd y prosiect Blwyddyn 6 hwn yn seiliedig ar y rôl chwaraeodd Ysgol Gynradd Heol Albany fel ysbyty milwrol yn 1914. Ffotograffau a gymerwyd ar y pryd a chynllun llawr o'r adeilad roddodd yr ysgogiad cychwynnol.

Roedd y disgyblion wedi ymweld â nifer o amgueddfeydd ac archifau yng Nghaerdydd i ymchwilio'u prosiect ac roedden nhw'n frwdfrydig iawn am y gwaith. Dehonglwyd yr wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn ac o nifer o ffynonellau eraill yn dda a chyflwynwyd hwy yn ddiddorol trwy gyfrwng amrywiaeth eang o gyfryngau. Cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod agored ar y cyd â Gŵyl Hanes 'Y Rhath yn Cofio' pryd yr ailgrewyd ward ysbyty yn un o'r ystafelloedd dosbarth. Yn ystod y digwyddiad hwn, bu'r ffaith fod y disgyblion wedi gwisgo fel milwyr wedi'u clwyfo, nyrsys a chynorthwywyr ward yn help i ailgreu awyrgylch y cyfnod. At hyn, dathlon nhw eu prosiect trwy gymryd rhan mewn cyngerdd am ddigwyddiadau yn yr ysbyty.

Grŵp Admiral ccc

Gwobr: £700

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

Archif Menywod Cymru

Gwobr: £300

**YSGOL GYNRADD WIRFODDOL GYMORTHEDIG PENBOYR
Sir Gaerfyrddin**

*Teitl: 'Wiliam and Mari and the Internet – from manuscript to
priest to people! 'Bible for everyone in the world' /*

**'Wiliam a Mari a'r We – o'r llawysgrif i'r argraffwasg i'r bobl! Beibl
i Bawb o Bobl y Byd.**

Mae'r prosiect deinamig hwn yn olrhain datblygiad y Beibl o lawysgrif i lyfr print ac yna i'r Rhyngrwyd heddiw, trwy hanesion William Morgan a Mari Jones. Ymchwiliodd Blynnyddoedd 5 a 6 y pynciau hyn yn drwyadl cyn mentro ar nifer o deithiau hanesyddol i froydd William Morgan a Mari Jones, i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac i Amgueddfa Abergwili i ddarganfod mwy amdanynt, eu cyfnodau a sut y cawsant eu dehongli. Mae'r profiadau hyn wedi ysbrydoli'r disgyblion i gyflwyno'u casgliadau mewn amrywiol ffyrdd: trwy arlunwaith mewn murluniau a phaentiadau; mewn cân a Phwerbwytiau, ac yn arbennig trwy eu gwefan ddynodedig eu hunain sy'n cynnwys gwybodaeth ddiddorol, cwisiau a phosau i ddiddori eu cyd-ddisgyblion. At hyn, maent wedi recordio rhaglen radio ar y pwnc, wedi'i hymchwilio, ei chyflwyno a'i chynhyrchu gan y plant eu hunain. Darlledwyd hon i'r gymuned a gwerthfawrogwyd hi'n fawr.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL GYNRADD CAEDRAW
Merthyr Tudful

Teitl: **The Seven Wonders of Merthyr Tydfil /**
Saith Rhyfeddod Merthyr Tudful

Bu diddordeb yn Saith Rhyfeddod y Byd yn sbardun i'r plant ymchwilio a darganfod 'Rhyfeddodau' Merthyr Tudful. Dewisodd y plant saith rhyfeddod, hynafol a modern, yn y dref. Gwnaethpwyd defnydd da o dystiolaeth wreiddiol trwy ymweld â safleoedd hanesyddol: Castell Cyfartha, Eglwys y Santes Tudful, Y Gweithfeydd Haearn, y Tŷ Coch, Cartref Joseph Parry a Cherfluniau Bocswyr. Trwy gyfrwng hen bapurau newydd, ffotograffau, arteffactau, llyfrau a chwilio'r Rhyngryd, datblygodd y plant ddealltwriaeth gadarn o'u treftadaeth a'u diwylliant Cymreig a'u gwybodaeth am sut roedd bywydau pobl yn y gorffennol yn wahanol i fywydau pobl heddiw. Trwy gyfrwng gwefan benodol 'Saith Rhyfeddod' a gysylltwyd â gwefan yr ysgol, galluogwyd cynulleidfa lawer ehangach i weld yr hyn roedd y disgyblion wedi'i ddysgu.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL GYNRADD PARC CYFARTHA
Merthyr Tudful

Teitl: **From Fort to Football / O Gaer i Bêl-droed**

Roedd y prosiect ysgol gyfan uchelgeisiol hwn yn dweud hanes twf a datblygiad safle Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful o'i ddechreuadau yn Gaer Rufeinig. Astudiwyd sut roedd y Celtiaid yn byw yn ystod goresgyniad y Rhufeiniaid, a sut roedd pobl yn byw yn ystod Oes Victoria fel y câi ei adlewyrchu ym mywydau'r teulu Crawshay. Defnyddiwyd ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth am y pynciau a'u lle yn nhreftadaeth ehangach Cymru. Cyfrannodd drama, celf, ysgrifennu, gwneud modelau a thechnoleg gwybodaeth yn dda i'r cyflwyniadau a oedd yn atgyfnerthu'u dealltwriaeth o'r pwnc. Mae'r llyfryn 'Cyfarthfa Tales' a gyhoeddwyd yn broffesiynol, a'r daflen gyhoeddusrwydd yn hyrwyddo twf Clwb Pêl-droed Merthyr Tudful wedi lledaenu'r wybodaeth yn effeithiol i gynulleidfa ehangach.

Gwobr Goffa Gareth Hopkins

Gwobr: £500

**YSGOL GYNRADD GLYNHAFOD
Rhondda Cynon Taf**

*Teitl: The Centenary of the Birth of Alun Lewis /
Canmlwyddiant Geni Alun Lewis*

Rhoddodd canmlwyddiant y bardd Alun Lewis gyfle i bob dosbarth ymchwilio ei fywyd a'i gampweithiau. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â menter gymunedol i gofio'r bardd a chaiff ei arddangos yn amgueddfa Aberdâr ym mis Mehefin.

Astudiodd y dosbarthiadau agweddau gwahanol ar hanes Lewis: ei fywyd ysgol, bywyd yn yr 1930au a'i brofiadau adeg y rhyfel. Ymhlith y deilliannau yr oedd llinell amser, rhaglen ddogfen fideo, darlenniadau o gerddi dethol, canu cerdd wedi'i gosod i gerddoriaeth a dehongliadau o'r cerddi trwy gelf ac ymatebion ysgrifenedig. Mae gardd goffa wedi'i chreu ar dir yr ysgol.

Nododd disgyblion hŷn sut roedd ei gerddi'n adlewyrchu'i orffennol a thristwch ei brofiadau adeg y rhyfel.

Grŵp Admiral ccc

Gwobr: £500



**YSGOL GYNRADD TON-DU
Penybont-ar-Ogwr**

Teitl: A Century of Learning / Canrif o Ddysgu

Nodwyd canmlwyddiant safle'r ysgol yn 'Heol Persody' gan brosiect ysgol gyfan gyda phob dosbarth yn ymchwilio i agwedd ar fywyd ysgol mewn cyfnodau gwahanol.

Casglwyd tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys y Ganolfan Hanes Teuluol, y gymdeithas hanes leol, cyfweiliadau â rhieni a theidiau a neiniau a sgwrs gan un o lywodraethwyr yr ysgol. Archwiliwyd a dadansoddwyd hen gofnodion yr ysgol ac adnabu'r disgyblion nodwedddion o adeilad gwreiddiol yr ysgol sy'n dal yn bodoli.

Dyfeisiwyd holiaduron yn sail i'r cyfweiliadau a thynnwyd cymariaethau rhwng profiadau'r disgyblion â rhai eu rhieni a'u teidiau a'u neiniau. Daeth gweithgareddau wedi'u hysgogi gan bynciau fel gemau buarth a theganau â'r ymchwil yn fyw.

Cafwyd arddangosfa drawiadol o'r ymchwil ar hyd a lled yr ysgol.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL GYNRADD TŶ'N Y WERN
Caerffili

Teitl: 'The 'Stute' Searchers - History of Bedwas Workman's Hall
/ Chwilotwyr y 'Stiwt' – Hanes Neuadd y Gweithwyr, Bedwas

Casglodd y disgyblion dystiolaeth o ymweliadau â'r Neuadd, cyfweiliadau ag aelodau o'r gymdeithas hanes leol a defnyddwyr yr adeilad, adroddiadau papurau newydd, rhaglenni o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yno dros amser ac o'r Rhynggrwyd.

Cyflwynwyd y gwaith trwy gyfrwng arddangosfeydd gweledol yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau yn cynnwys arsylwadau ysgrifenedig, defnyddiwyd sgiliau TGCh i greu cyflwyniad Pwerbwynt a chyfrannodd pob plentyn yn y clwb hanes at 'Lyfr Llafar'.

Mae gan y disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth ardderchog o hanes y 'Stiwt', pam yr adeiladwyd ef, sut y cafodd ei gyllido, problemau a fygythiai ei fodolaeth yn yr 1990au a sut yr enillodd statws rhestredig yn dilyn ymgyrch gref gan y gymuned trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £400



YSGOL GYNRADD CLUN
Castell Nedd Port Talbot

Teitl: World War One Home and Away / Y Rhyfel Byd Cyntaf
Gartref ac Oddi Cartref

Ysgogodd drama gan Theatr na nÓg am y Rhyfel Byd Cyntaf archwiliad manwl o'r cyfnod yn eu cymuned. Casglodd disgyblion enwau dynion lleol a fu farw oddi ar y gofeb ryfel yn y pentref. Trwy ymchwilio papurau newydd, dogfennau'r cyfrifiad a chofnodion gwasanaeth yn yr archifdy sirol darganfu'r disgyblion ble roedd y dynion yn byw yn Y Clun. Arweiniodd hyn at greu arddangosfeydd manwl ac addysgiadol.

Cyflwynodd y disgyblion iau ddrama am y cyfnod a oedd yn trafod y rhesymau dros y rhyfel, yr effaith ar y gymuned a ble roedd milwyr o'r ardal yn gwasanaethu.

Defnyddiwyd caneuon o'r cyfnod a cherddi a ysgrifennwyd gan y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r disgyblion yn cynllunio te parti'r cyfnod i rannu eu casgliadau gyda'r gymuned ehangach.

Grŵp Admiral ccc

Gwobr: £400



**YSGOL GYNRADD CLYDACH
Abertawe**

***Teitl: Clydach Primary School History Trail /
Llwybr Hanes Ysgol Gynradd Clydach***

Taith hanes y pentref a gynhyrchwyd yn 1986 oedd man cychwyn yr ymgais manwl a difyr hwn. Nodir tri adeilad ar ddeg yn yr ardal yn fannau craidd y daith. Defnyddiwyd gwybodaeth gan rieni ac aelodau'r gymuned, cyhoeddiadau'r gymdeithas hanes leol a mapiau yn effeithiol. Cyflwynwyd eu casgliadau ar y Rhynggrwyd. Mae'r codau QR a leolwyd ar hyd a lled y pentref yn caniatáu i'r gymuned rannu eu hymchwil a'u canfyddiadau.

Cynhwyswyd delweddau, hanes yr adeiladau, recordiadau o gyfweiliadau o atgofion brodorion ac animeiddiadau yn dehongli'r digwyddiadau ym mhob elfen o'r daith. Bu'r disgyblion yn actio digwyddiadau a oedd yn dangos sut y câi'r adeiladau eu defnyddio yn y gorffennol. Ymgorfforwyd llinellau amser ym mhob elfen o'r llwybr.

Grŵp Admiral ccc

Gwobr: £150

Cyfeillion Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Gwobr: £250

**YSGOL GYNRADD WIRFODDOL GYMORTHEDIG
GLAN-Y-FFERI
Sir Gaerfyrddin**

Teitl: Bywyd, Gwaith a Chyfnod Dylan Thomas

Mae holl ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn astudio agweddau ar fywyd, gwaith a chyfnod Dylan Thomas yn seiliedig ar ei ymweliadau cyson â Glan-y-fferi i weld ei fodryb. Mae disgyblion CA2 wedi astudio hanes yr Ail Ryfel Byd yn Abertawe yn arbennig ac ar y ffrynt cartref. Canolbwyntiodd CA1 ar *A Child's Christmas in Wales* a gwneud addurniadau Nadolig o'r cyfnod.

Ymhlith deilliannau'r prosiect mae arddangosfeydd mur, murlun o dirnodau lleol a grëwyd gydag artist lleol, dramodig, a chyngerdd yn cynnwys caneuon Cymraeg traddodiadol a phortffolio o ysgrifennu creadigol yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r ysgol wedi rhannu'r prosiect gyda'r gymuned leol mewn dau ddigwyddiad yn y pentref a thrwy'r cylchgrawn cymunedol, *Stish*.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £400



YSGOL GYNRADD TALACHARN **Sir Gaerfyrddin**

Teitl: **Laugharne Then and Now / Talacharn Ddoe a Heddiw**

Trwy gyfrwng y prosiect hwn darganfu'r disgyblion am eu tref yn Oes Victoria a gwnaethant amrywiaeth cyfoethog o waith trawsgwricwlaidd. I ateb eu cwestiynau am fywydau'r bobl gyfoethog a'r tlawd yn Nhalacharn Oes Victoria, astudiodd y disgyblion fapiau, y cyfrifiad a chyfeiriadon masnach. Cawsant gymorth aelod o'r gymdeithas hanes leol. Ymhlith y deilliannau yr oedd gwaith ysgrifenedig, darluniau arsylwadol, gwaith TGCh, ymarferion mathemategol a gwyddonol ac ail-luniadau dramatig.

Gwnaeth y disgyblion gyflwyniadau fideo sgrîn-werdd, gan wisgo yn nillad y cyfnod ar eu cyfer. Roedd hi'n amlwg mai gwaith y disgyblion eu hunain oedd yr ymchwil am ddelweddau a'r sgriptio ar gyfer y fideo. Cafodd ei ddangos mewn Diwrnod Treftadaeth lleol ac yn noson agored yr ysgol.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £400



YSGOL GYNRADD PARC **Rhondda Cynon Taf**

Teitl: **Robert Thomas – Sculptor / Cerflunydd**

Ysbrydolwyd y disgyblion i wneud y prosiect hwn gan y cerflun o'r glöwr a'i wraig, yn cario'u baban, ger eu cartrefi a'r plac glas ym mhentref Cwm-parc, yn nodi cartref y cerflunydd, Robert Thomas, pan oedd yn blentyn.

Daeth nith Robert Thomas, Jean, a oedd yn fodel ar gyfer y baban yn y cerflun, i siarad â'r disgyblion a dwedodd wrthynt am gerfluniau eraill a wnaeth ef.

Ymwelodd dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen â'i gartref a chreon nhw eu cerfluniau amrywiol eu hunain o glai. Cynhyrchodd disgyblion CA2 gyflwyniad Pwerbwyt o'i fywyd a'i waith ac ysgrifennon nhw sgript a gafodd ei hactio a'i ffilmio. Gwahoddwyd rhieni, neiniau a theidiau a thrigolion lleol i weld y ffilm.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £400



YSGOL TEILO SANT **Sir Gaerfyrddin**

Teitl: Emigrating to Patagonia / Allfudo i Batagonia

Mabwysiadwyd 'Allfudo i Batagonia' yn brif thema'r cwricwlwm ysgol yn ystod tymor yr Hydref 2014. Cyfrannodd pob blwyddyn ysgol i'r ymchwil hanesyddol trwy themâu perthynol. Trafodwyd pob agwedd bron o'r cwricwlwm wrth i'r disgyblion ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig yn benodol â phrofiadau'r gwladfawyr ym Mhatagonia. Cafwyd deilliannau o safon uchel yn sgil hynny, yn cynnwys llyfrau stori digidol, crefft a gwneud modelau - o'r cynllunio i'r creu, a hynny'n seiliedig ar ymchwil, holi ymwelwyr â'r ysgol, dadansoddi tystiolaeth ddarluniadol ac ysgrifenedig i greu mapiau stori a chreu a gwneud arteffactau i'w harddangos. Trwy hyn hyrwyddwyd gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a'u diwylliant Cymreig.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Gwobr: £300



YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRONLLWYN **Rhondda Cynon Taf**

Teitl: Shopping – Yesterday, today and tomorrow / ***Siopa-Ddoe, heddiw ac yfory***

Defnyddiodd y disgyblion amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gwefannau, llyfrau a ffotograffau i ymchwilio newid a pharhad yn nulliau siopa. Canolbwyntiwyd ar siop gydwethredol leol a buon nhw ar ymweliad â Gwalia Stores yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru. Darparwyd rhagor o wybodaeth gan hanesydd lleol a bu aelod o'r Bathdy Brenhinol yn trafod newidiadau ym myd arian.

Trwy ddefnyddio ystod o arteffactau gwnaethon nhw arddangosfeydd dosbarth rhagorol ac ailgrëwyd siop o'r 1930au. Defnyddiwyd y prosiect yn ysgogiad ar gyfer perfformiadau creadigol a gwaith celf a dylunio. Ym maes technoleg gwnaethon nhw robot i gynrychioli siopa yn y dyfodol. Cynhyrchon nhw bamffled bychan hefyd.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Gwobr: £300



YSGOL GYNRADD CWMCLYDACH
Rhondda Cynon Taf

Teitl: 'From Me to You' / 'Oddi wrthyt Ti i Fi'

Roedd y prosiect cymunedol hwn yn dathlu 135 mlynedd o addysg yng Nghwmclydach.

Cymharwyd bywyd ysgol 'slawer dydd â'r ffocws gwahanol iawn ar TG mewn ystafelloedd dosbarth heddiw. Trwy apêl gyhoeddus am wybodaeth cafwyd casgliad da o ffotograffau yn ymwneud ag atgofion y rhoddwyr. Mewn Noson Agored gwahoddwyd y gymuned i'r ysgol a recordiodd y disgyblion y dystiolaeth a gasglwyd yn ddigidol.

Llwythwyd yr wybodaeth a recordiwyd i fyny i wefan 'From Me to You'.

At hyn defnyddiwyd ffynonellau eraill yn cynnwys hen gynlluniau o'r ysgol, papurau newydd a llyfrau log yr ysgol.

Nodwyd digwyddiadau dethol i'w hymchwilio ymhellach.

Derbyniodd yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llyfrgell leol a'r papur newydd cymunedol lleol 'Up Your Street'. Rhannwyd gwybodaeth am y prosiect trwy Drydar a Gweplyfr.

Gwobr 'Hanes Atgas'

Gwobr: £200

YSGOL GYMRAEG CAERFFILI

Caerffili

*Teitl: Caerphilly Castle and the leaning tower /
Castell Caerffili a'r tŵr cam*

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili eleni. Penderfynodd y disgyblion a'r athrawon fanteisio ar hyn i ddathlu eu treftadaeth leol. Ymwelodd disgyblion â chastell Caerffili a chawsant gyfle i chwarae rôl yn ymwneud â llawer o'r cymeriadau hanesyddol sy'n gysylltiedig ag ef. Gwnaethant ffilm o'u hymweliad. Agwedd bwysig o'r prosiect oedd cefnogi disgyblion i wneud eu hymchwil annibynnol eu hunain yn defnyddio ystod o ffynonellau lleol. Datblygodd y disgyblion eu dehongliadau eu hunain a chyflwynon nhw'r rhain mewn pamffledi a phosteri a gynlluniwyd i arddangos hanes Caerffili i dwristiaid. Cynllunio nhw nifer o arfbeisiau hefyd. Perfformiad cerddorol o hanes tŵr cam y Castell oedd yr uchafbwynt. Caiff y sioe hon ei pherfformio yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.

**Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch
(Gwobr Goffa Trefor Rees ac Eric Griffith)**

Gwobr: £200

**YSGOL GYNRADD CWMLAI
Rhondda Cynon Taf**

Teitl: 'Top Trumps' / 'Hoff Bencampwyr'

Prosiect am 'bencampwyr' Cymreig enwog ym meysydd penodol chwaraeon, cerddoriaeth, celf, gwyddoniaeth a fforio oedd hwn. Mewn grwpiau, bu'r disgyblion yn ymchwilio hanesion sawl personoliaeth a dewis eu 'Hoff Bencampwyr'. Tanni Grey-Thompson, Band y Cory, Kyffin Williams, dyfeisydd y peiriant hedfan, William Frost a'r Tywysog Madog oedden nhw.

Bu'r disgyblion yn ymchwilio'r Rhyngrwyd, yn astudio llyfrau ac yn gofyn cwestiynau i'w hathrawon a'u rhieni. Dangoson nhw ymwybyddiaeth feirniadol o gryfderau a gwendidau ffynonellau gwahanol. Cynhyrchodd pob grŵp arddangosfa i rannu'r wybodaeth â disgyblion eraill y dosbarth.

Rhannwyd y gwaith gyda'r rhieni. Ond y modd y buon nhw'n eu haddysgu eu hunain wnaeth yr argraff fwyaf, trwy ddatblygu gwaith grŵp, a sgiliau siarad, gwranddo ac ymchwilio.



**Cymdeithas Hynafiaethau
Sir Gaerfyrddin**

Gwobr: £200

**YSGOL GYNRADD TRE IOAN
Sir Gaerfyrddin**

Teitl: Coracles of Carmarthen / Cwryglau Caerfyrddin

Amcan y prosiect gwreiddiol hwn oedd gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion (gan gynnwys rhai nad sydd â'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt) trwy ymchwilio thema hanesyddol. Ymchwilion nhw gwryglau Caerfyrddin trwy ddefnyddio llyfrau, erthyglau, papurau newydd a'r Rhyngrwyd ac ymwelon nhw â'r Ganolfan Gwryglau Genedlaethol a Chei Caerfyrddin, lle cwrddon nhw â chwrwglwr lleol a daeth ef i'r ysgol hefyd i helpu gyda'u hymchwil. Paratowyd cyflwyniad Pwerbwynt ardderchog yn defnyddio ffotograffau, clipiau o ffilmiau a thestun. Ysgrifennon nhw eu sgrïpt eu hunain, yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Siaradodd pob un o'r plant yn hyderus am eu prosiect a dangoson nhw wybodaeth fanwl am y grefft o bysgota o gwrwgl a'i hanes.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £200



YSGOL EIN HARGLWYDDES, BANGOR
Gwynedd

*Teitl: Celebrating 125 years of our school and
a Bangor time-line/*

Dathlu 125 mlynedd o hanes ein hysgol a llinell amser Bangor

Cymerodd pob dosbarth ffocws arbennig o safbwynt hanes yr ysgol a hanes Bangor dros gyfnod o 125 mlynedd. O ganlyniad mae disgyblion wedi darganfod llawer am adeiladau ym Mangor a thirnodau eraill yn ogystal ag am nifer o bynciau eraill yn y cyfnod hwn. Ymwelodd y disgyblion ag Amgueddfa Bangor ac ymwelodd staff yr amgueddfa â'r ysgol. Daethant ag arteffactau gyda nhw a buon nhw'n siarad amdanynt â'r disgyblion. Ymwelodd cyn-ddisgyblion ac athrawon â'r ysgol hefyd i siarad ac ateb cwestiynau'r disgyblion. Gallai disgyblion o bob oed ddwyn eu casgliadau i gof yn fanwl a'u cyflwyno yn glir a hyderus. Codwyd yr arddangosfa yn yr Eglwys Blwyf a dathlwyd 125 mlynedd o hanes yr ysgol yno.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £200



YSGOL GYMRAEG PENALLTAU
Caerffili

Teitl: Chwyldro

Canolbwynt y prosiect hwn gan ddisgyblion CA2 iau oedd astudio bywyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymhlith y themâu roedd Terfysgoedd Beca, bywyd y Frenhines Victoria, gwaith Dr Barnado ac amodau gwaith plant mewn pyllau glo. Defnyddiodd y disgyblion ffynonellau gwreiddiol ac eilaidd ar gyfer eu hastudiaethau, gan gynnwys archifau lleol, gwefannau, llyfrynau gwybodaeth a ffotograffau. Cawsant gyfle hefyd i drafod gwrthrychau'r cyfnod, a fenthycwyd o amgueddfa leol ac ymwelwyd â Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru. Rhoddodd y profiadau hyn gyfleoedd iddynt ddatblygu ystod lawn o sgiliau hanesyddol.

Soroptimyddion Rhyngwladol
Y Barri a'r Fro
Gwobr: £200



YSGOL GYNRADD PILLGWENLLI
Casnewydd

Teitl: The History of Newport Docks / Hanes Dociau
Casnewydd

Canolbwyntiodd y prosiect hwn ar ganmlwyddiant adeiladu Loc Fawr y De, Dociau Casnewydd, a'i heffaith ar ddatblygiad y dociau wedi hynny. Eglurodd y disgyblion sut a pham yr oedd dociau Casnewydd wedi datblygu dros amser. I'w helpu gyda'u hymchwil, ymwelon nhw â dociau Casnewydd a Chanolfan Y Pedair Loc ar Ddeg, yn ogystal â defnyddio ystod o ffotograffau. Darganfuon nhw hanes Thomas Lewis, a wobrwyyd â Medal Albert i gydnabod ei ddewrder yn achub cydweithwyr yn dilyn damwain yn ystod adeiladu Loc Fawr y De.

Mae'r disgyblion wedi cyfrannu at greu ffilm fer am Ddociau Casnewydd trwy ddarparu lluniau a throsleisiau ar ei chyfer.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £200



YSGOL GYNRADD TROEDYRHIW
Merthyr Tudful

Teitl: Our Centenary Year / Blwyddyn ein Canmlwyddiant

Roedd canmlwyddiant yr ysgol yn rhychwantu'r cyfnod o 1914 i 2014. Rhoddodd hyn sylfaen ardderchog ar gyfer astudio sut roedd bywydau pobl yn byw yn Nhroedyrhiw ar ddechrau a diwedd yr ugeinfed ganrif yn cymharu â'u bywydau heddiw. Strwythurwyd y prosiect o gwmpas bywyd yr ysgol, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, a heddiw. Cyflwynwyd deilliannau'r astudiaeth trwy gyfrwng arddangosfa helaeth yn y rhodfa. Roedd ffotograffau, arteffactau o'r rhyfel byd, llyfr log yr ysgol a'r llyfr cosb yn ffynonellau gwerthfawr o dystiolaeth wreiddiol a gyfrannodd lawer at wybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u treftadaeth a'u diwylliant Cymreig.

**Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Gwobr: Llyfr a CD o ffotograffau
o'r ardal leol**



**YSGOL GYNRADD CRYMLYN LEFEL UWCH
Caerffili**

***Teitl:* Walk Like an Egyptian - Egyptian collections in Wales /
Cerddwch fel Eifftiwr – casgliadau Eifftaidd yng Nghymru**

Mae grŵp o ddisgyblion CA2 yn perthyn i Glwb Archeoleg yr ysgol sy'n cwrdd amser cinio unwaith yr wythnos, ac a gefnogir gan athro ac archeolegydd llawrydd. Yn amgueddfa'r ysgol mae arteffactau Eifftaidd a ddarparwyd gan aelod o staff fu'n gweithio gynt yng Nghanolfan Eifftaidd Abertawe. Ychwanegwyd at y rhain gan enghreifftiau masnachol a brynwyd yn dilyn ymweliad y clwb â'r Ganolfan. Ymhlith cyflwyniadau'r disgyblion roedd cyfweiliadau iPad â'r athro a arferai weithio yn y ganolfan, modelau mymi ac astudiaeth o hieroglyffau. Ysgrifennodd y plant at Arglwydd Carnarvon, disgynnydd y fforiwr enwog. Atebodd yntau a'u gwahodd i ddod i weld ei gasgliad o wrthrychau Eifftaidd!

Enillwyr Gwobrau 2015 Ysgolion Uwchradd

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £1000



YSGOL MAES GARMON, YR WYDDGRUG
Sir y Fflint

Teitl: Recollections of the First World War /
Atgofion y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae'r prosiect ysgol gyfan a thrawsgwricwlaidd hwn wedi canolbwyntio ar effaith y Rhyfel Mawr ar ogledd-ddwyrain Cymru. Yn ystod y broses ymchwiliodd y disgyblion rolau a thynged aelodau eu teuluoedd. Mae'r disgyblion wedi ymchwilio'n eang ac wedi ymweld â'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, y Llyfrgell Genedlaethol ac Archifdy Sir y Fflint. Maent wedi cysylltu â grwpiau hanes lleol a chwmni theatr. O ganlyniad cafwyd prosiect trawiadol iawn a ddatblygwyd o gwmpas arddangosfa ardderchog, DVD a chylchgrawn sgleiniog y prosiect. Mae'r gwaith wedi denu sylw'r gymuned leol a'r cyfryngau cenedlaethol.

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â sut yr effeithiodd y rhyfel ar eu hardal a sut y newidiwyd Ewrop. Mae eu dehongliad o'r gwrthdaro a'r gwersi posibl ar gyfer y byd heddiw yn gryfder nodedig yn y prosiect.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £1000



YSGOL DYFFRYN TEIFI, LLANDYSUL
Ceredigion

Teitl: Llandysul a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Man cychwyn y prosiect oedd plac coffa yn llyfrgell yr ysgol i aelodau'r gymuned ysgol a fu'n gwasanaethu ac a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Trwy'r prosiect ymchwiliodd y disgyblion yn helaeth i brofiadau cyn-ddisgyblion yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf fel man cychwyn, cyn ymestyn eu dealltwriaeth o'r gwrthdaro ehangach. Trwy eu hymchwil dangoson nhw sgiliau dadansoddi a dehongli.

Cafwyd dau ddeiliant arbennig o drawiadol yn sgil eu hastudiaethau: model wrth raddfa hanesyddol gywir o ran o'r ffrynt gorllewinol a llyfryn yn croniclo profiadau cyn-ddisgyblion yn y Rhyfel Mawr. Mae'r ddau yn ffynonellau unigryw sydd eisoes yn profi'n werthfawr iawn i gymuned ehangach yr ysgol a thu hwnt.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £750



YSGOL GYFUN TREORCI
Rhondda Cynon Taf

Teitl: **Gelli Memorial Plaque / Plac Coffa'r Gelli**

Deillia'r prosiect o blac coffa o'r Rhyfel Byd Cyntaf a ddarganfuwyd mewn sgip sbwriel. Aeth Clwb Hanes yr ysgol ati i ymchwilio pob enw ar y plac. Tyfodd hyn yn ymchwiliad ehangach o'r Rhyfel Mawr. Daeth y prosiect i ben mewn seremoni gyhoeddus pan roddwyd y plac wedi'i adfer ar fur Ysgol Gynradd y Gelli. Ymchwiliodd y myfyrwyr yn eang ac edrychon nhw ar amrywiaeth helaeth iawn o dystiolaeth ar gyfer eu hastudiaethau. Ymestynnwyd yr ymholi i archwilio natur a maint y rhyfel, a hefyd, sut yr effeithiodd e ar y gymuned leol. Cynhyrchon nhw gyflwyniad gweledol teimladwy. Mae'r prosiect wedi denu sylw eang yn lleol. Gweithiodd y disgyblion yn dda gyda disgyblion ysgol gynradd leol hefyd.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL CIL-Y-COED
Mynwy

Teitl: **What was it like to be Welsh and fighting on
the Western Front? /**

**Sut brofiad oedd bod yn Gymro yn ymladd ar y Ffrynt
Gorllewinol?**

Bu myfyrwyr y clwb hanes yn ymchwilio achosion y Rhyfel Byd Cyntaf a bywyd yn y ffosydd. Trwy ymweld â chofebion a sgwrs gan hanesydd lleol mae ganddynt ymwybyddiaeth o'i effaith ar eu bro.

Trwy weithio mewn grwpiau maent wedi cynhyrchu cyfres o gyflwyniadau ar themâu gwahanol a chyda'i gilydd maent wedi creu model mawr o ffos. Defnyddiwyd y ffos yn senario ar gyfer cyflwyno chwarae rôl wedi'i sgriptio ganddynt hwy eu hunain ac a oedd yn cysylltu'r holl agweddau y maent wedi'u hastudio.

Mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth ardderchog o fywyd yn y ffosydd a gwybodaeth gadarn am ddiwyddiadau Mai 8fed 1915, pan gafodd Bataliwn 1af Catrawd Sir Fynwy ei difodi i bob pwrpas.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL UWCHRADD ELFED
Sir y Fflint

Teitl: Archaeological Dig / Cloddiad Archeolegol

Trwy gydweithio ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys mae'r disgyblion wedi cymryd rhan yng ngloddiadau'r Ymddiriedolaeth o ran o safle crochenwaith o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar dir yr ysgol. Mae'r disgyblion wedi elwa o brofiad uniongyrchol dulliau ymholi archeolegol. Buon nhw'n ymchwilio ychydig i'r dystiolaeth hanesyddol am yr ardal, gan weithio gyda'r gymdeithas hanes leol i ddarganfod rhagor am y crochenwaith a phwysigrwydd y diwydiant i'w cymuned yn y gorffennol. Maent wedi darparu arddangosfa am eu darganfyddiadau, ac wedi dehongli'r rhain trwy amrywiaeth o gyfryngau.

Cymdeithas Athrawon Hanes Cymru
Gwobr: £500

YSGOL LEWIS PENGAM
Caerffili

Teitl: Yesterday Never Returns / Ddaw Ddoe ddim yn Ôl

Roedd y cynnwys yn wreiddiol oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar ddarganfod gwybodaeth am yr enwau ar Blac Coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf, a oedd wedi treulio'n wael, yn yr ysgol. Ymestynnwyd hyn i edrych ar rôl Morgan Jones, gwrthwynebydd cydwybodol ac Aelod Seneddol Caerffili yn ddiweddarach. Rhoddodd y prosiect ddarlun byw i'r disgyblion o fywyd milwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r gymuned y daethant ohoni, yn enwedig rôl menywod. Yn y cyflwyniad trawiadol ac amrywiol cynhyrchwyd llyfrynnau, ffilmiau, recordiadau llafar ac adnewyddwyd cofeb a chafwyd cyflwyniadau i grwpiau cymunedol ac ysgolion cynradd. I goroni'r cyfan, perfformiwyd drama 'Yesterday Never Returns'. Mae'r prosiect wedi'i rannu'n helaeth â thrigolion yr ardal a gwnaeth y cysylltiadau â chymdeithasau lleol a grwpiau cymunedol gryn argraff.

Casgliad y Werin Cymru
Gwobr: £500



YSGOL MAES Y DDERWEN
Powys

*Teitl: Ystradgynlais and surrounding area during World War 1 /
Ystradgynlais a'r cylch yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf*

Penderfynodd y Clwb Hanes goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf trwy ymchwilio effaith y rhyfel ar Ystradgynlais. Astudiwyd ystod eang o ffynonellau gwreiddiol yn cynnwys ffotograffau, arteffactau, dogfennau, cylchgronau a.y.b. Trwy bapurau newydd arlein maent wedi dethol erthyglau am eu hardal a thrwy olygu gofalus wedi'u trawsysgrifio i'w gwneud yn fwy hygyrch.

Maent wedi ymweld â beddau a chofebion rhyfel ym Menin Gate a Mametz, profiad a rannwyd mewn gwasanaeth â'r ysgol gyfan; ymweld ag Amgueddfa Filwrol Aberhonddu lle cawsant gyfle i chwarae rôl; ac wedi bod yn Llyfrgell Glowyr De Cymru i glywed hanesion llafar y milwyr a'r twnelwyr. Bydd y prosiect yn dirwyn i ben trwy gyfrwng cynhyrchiad dramatig, yn seiliedig yn rhannol ar ymchwil hanesydd lleol.

Gwobr Goffa Owen Jones
Gwobr: £500

YSGOL Y PRESELI
Sir Benfro

Teitl: Sir Benfro 1914 -1945

Archwiliodd y Clwb Hanes effeithiau'r gwrthdaro yn ystod y ddau Ryfel Byd ar Sir Benfro. Defnyddiodd yr astudiaeth ar y Rhyfel Byd Cyntaf gofeb ryfel leol yn fan cychwyn i ddarganfod hanesion y rhai fu farw yn y gymuned. Ymgorfforwyd y casgliadau mewn DVD pwerus a oedd wedi ei gynhyrchu'n dda.

Archwiliodd astudiaeth o'r Ail Ryfel Byd faterion megis y faciwîs, dogni, ymarfer glanio D Day a'r ymosodiadau ar burfeydd olew Aberdaugleddau. Cyfwelwyd perthnasau a gofiai'r cyfnod a recordiwyd eu hatgofion. Casglwyd rhychwant eang o ffotograffau.

Codwyd arddangosfa yn yr adeilad a rennir gan yr ysgol a'r gymuned fel y gallai aelodau'r cyhoedd weld ffrwyth ymdrechion y disgyblion. Cyhoeddwyd elfennau o'u hymchwil yn y papur bro lleol.

Casgliad y Werin Cymru
Gwobr: £500



YSGOL GYFUN RHYMNI
Caerffili

Teitl: **Operation Mincemeat / Ymgyrch 'Mincemeat'**

Mae grŵp o ddisgyblion Blynyddoedd 9 a 10 wedi ymchwilio Ymgyrch 'Mincemeat', y cynllun rhoi gwybodaeth anghywir a ddyfeisiwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd agwedd leol i'r cynllun oherwydd iddynt ddefnyddio corff gŵr lleol, Glyndwr Michael, ar gyfer yr ystryw. Trwy ddefnyddio ffynonellau megis rhaglen ddogfen y BBC 'Operation Mincemeat' a'r ffilm 'The Man Who Never Was' (1956) a'u gwybodaeth ehangach am yr Ail Ryfel Byd, maen nhw wedi sgriptio'u dehongliad eu hunain o'r digwyddiadau ac wedi actio'r golygfeydd. Ar ôl iddyn nhw ddysgu sut i wneud ffilm maen nhw'n bwriadu creu eu fersiwn ffilm eu hunain o'r stori.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £400



YSGOL GYMUNEDOL GLYN RHEDYNOG
Rhondda Cynon Taf

Teitl: **Honouring our local heroes / Anrhydeddu ein harwyr lleol**

Mae disgyblion wedi darganfod hanesion y milwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf y gwelir eu henwau ar Rôl Anrhydedd yr ysgol. Mae'r disgyblion hŷn wedi ymweld â safle Brwydr Mametz ac wedi paratoi cyflwyniad i ddisgyblion iau, gan gynnwys disgyblion yn dechrau yn y cyfnod trosiannol. Mae disgyblion B19 wedi gwneud eu hymchwil eu hunain, wedi creu gardd goffa yn yr ysgol, ac yn rhannu eu darganfyddiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Undeb Rygbi Cymru **Gwobr: Crys Rygbi wedi ei lofnodi**



YSGOL BRYNTEG **Penybont-ar-Ogwr** *Teitl: Island Farm*

Y Clwb Hanes (gweithgaredd allgyrsiol amser cinio) fu'n ymwneud â'r astudiaeth hon o wersyll carcharorion rhyfel Island Farm. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y saith deg carcharor a ddihangodd ym mis Mawrth 1945. Paratowyd arddangosfa a chyflwyniad Pwerbwynt. Ar y cyfan, roedd gan y disgyblion ystod deg o dystiolaeth a oedd wedi ei hymchwilio'n dda. Cyflwynwyd nifer o esboniadau a chasgliadau llawn gwybodaeth ac wedi'u hysgrifennu'n glir am y ddihangfa a'r canlyniadau. Maen nhw'n gwybod am, ac yn deall, y pwnc ac yn gallu ei drafod ar lafar yn hyderus ac yn huawdl. Mae'r disgyblion wedi cynhyrchu cynllun gwerau da ar y pwnc ac wedi ei ddefnyddio gyda dosbarth Blwyddyn 7.

Into Film Cymru **Gwobr: Gweithdy gwneud ffilm** **gyda grŵp o ddisgyblion**



YSGOL UWCHRADD CANTONIAN **Caerdydd**

Teitl: From Cymmer Coal to Insole Gold / **O Lo y Cymer i Aur Insole**

Trwy ddefnyddio'u cysylltiadau sefydledig â Chyfeillion Insole Court a chymryd rhan mewn taith noddedig o'r Cymer i Insole Court darganfu'r disgyblion hanes Glofa'r Cymer a'r teulu Insole a oedd yn berchen y lofa. Canolbwyntion nhw ar gyfoeth y teulu Insole a'i gyferbynnu â hanes trychineb Glofa'r Cymer yn 1856. Mae'r disgyblion wedi cynhyrchu prosiect diddorol ac amrywiol. Maen nhw wedi defnyddio ystod dda o dystiolaeth, gan gynnwys defnyddio Archifau Morgannwg i ymchwilio a chynhyrchu eu defnyddiau. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am y teulu Insole, ac mewn gwrthgyferbyniad, am drychineb Glofa'r Cymer. Maen nhw'n deall ac yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau economaidd agos oedd rhwng Caerdydd a'r Rhondda.

**Cymdeithas Hanes Morgannwg
(Gwobr Goffa Patricia Moore)**

Gwobr: £250

**YSGOL GYFUN DYFFRYN
Castell Nedd Port Talbot**

***Teitl: Dyffryn Remembers World War One /
Dyffryn yn cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf***

Yn dilyn ymweliad â gosodiad pabïau Tŵr Llundain, penderfynodd disgyblion Dyffryn nodi marwolaethau milwyr eu hardal gan nad oes cofeb Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhort Talbot. Gan ddefnyddio dogfen a gyhoeddwyd gan y gymdeithas hanes leol yn rhestru'r milwyr hynny o'r ardal a fu farw ar faes y gad, cynhyrchodd y disgyblion fap rhyngweithiol yn lleoli cartref pob milwr yn ogystal â manylion allweddol. Rhoddwyd hwn ar wefan yr ysgol.

At hyn mae'r disgyblion wedi ysgrifennu barddoniaeth a dyddiaduron rhyfel yn adlewyrchu bywyd yn y ffosydd a thrwy gydweithrediad yr Adran Gelf wedi cynhyrchu cofeb ysgol gydag un pabi yn cynrychioli pob un a syrthiodd. Trefnwyd cystadleuaeth bêl-droed ar themâu'r Rhyfel Byd Cyntaf i nodi cadoediad y Nadolig.

**Cymdeithas Archaeolegol Cambrian
(Gwobr Goffa Blodwen Jarman)**

Gwobr: £250

**YSGOL UWCHRADD FITZALAN
Caerdydd**

***Teitl: Our "trench". Fitzalan's replica First World War trench /
Ein "ffos", Atgynhyrchiad Fitzalan o Ffos o'r Rhyfel Byd Cyntaf***

Dechreuodd grŵp brwdfrydig o ddisgyblion atgynhyrchu ffos trwy ei hadeiladu ar dir yr ysgol. Mae'r adeiledd trawiadol hwn wedi bod yn ganolbwynt gweithgareddau coffáu a gweithgareddau ehangach yn ymwneud â chofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymhlith y gweithgareddau ehangach hyn ymwelwyd ag Archifau Morgannwg i ymchwilio hanesion milwyr lleol a fu'n rhan o'r gwrthdaro. Cymerwyd rhan mewn cylch o weithgareddau ar draws holl adrannau'r ysgol, a oedd yn darparu gweithgaredd dysgu ysgogol yn ymwneud â'r rhyfel ac roedd y grŵp yn tywys ymwelwyr o gwmpas "eu" Ffos yn gyson. Yn y modd hwn, ehangwyd y prosiect o'r grŵp bychan cychwynnol i gwmpasu'r ysgol gyfan a'r gymuned ehangach.



Cymdeithas Athrawon Hanes Cymru

Gwobr: £250

**YSGOL TONYREFAIL
Rhondda Cynon Taf**

*Teitl: The First World War (commemoration) /
Y Rhyfel Byd Cyntaf (coffâd)*

Deillia prif nodwedd y prosiect hwn o weithgareddau cyfoethogi, yn adeiladu ar strategaeth ysgol gyfan gan yr adran hanes, i godi ymwybyddiaeth o'r Rhyfel Byd Cyntaf cyn Diwrnod y Cadoediad. Mae disgyblion unigol wedi ymgymryd ag ymchwil lleol tra bod y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn trefnu gweithgareddau, ar ôl ysgol, ar gelf ac ysgrifennu creadigol i gyfrannu at y cwricwlwm. Y canlyniad oedd gwaith celf gwreiddiol a cherddi a thestunau teimladwy wedi'u seilio ar ddefnyddiau ysgogol fel posterï propaganda, llythyrau milwyr gartref a ffotograffau.

Darllenwyd cerddi'r disgyblion mewn gwasanaethau ysgol, codwyd arddangosfa yn y ganolfan hamdden leol fel rhan o arddangosfa a drefnwyd gan Brifysgol y Drydedd Oes a chyfrannwyd at gylchgrawn arlein i ieuenctid, WICID.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Gwobr: Llyfr a CD o ffotograffau o'u hardal leol

**YSGOL BISHOP GORE
Abertawe**

*Teitl: A documentary on Welsh Heritage /
Rhaglen ddogfen am y Dreftadaeth Gymreig*

Casglodd disgyblion oedd yn ymddiddori yn astudiaethau'r cyfryngau ar draws yr ystod oedran, ynghyd amrywiaeth o brosiectau difyr yn gysylltiedig â'r dreftadaeth Gymreig ar eu ipads. Yn eu plith roedd: hanes yr Anthem Genedlaethol, iMovie ar fod yn Gymry, a phoster o ffilm ddychmygol am y Brenin Arthur. Fel y gellid disgwyl o ysgol yn y fro hon cafodd Dylan Thomas sylw hefyd. Roedd y disgyblion yn frwdfrydig ac yn gallu cyflwyno eu prosiectau yn hyderus.



**Pwyllgor Menter Ysgolion
y Dreftadaeth Gymreig
Gwobr: £100**



YSGOL GYFUN TREFYNWY
Trefynwy
Teitl: HENRY V

Cynhyrchodd y disgyblion ddehongliad dysgedig o hanes Trefynwy yn yr Oesoedd Canol hwyr. Cyfrannodd hyn at ymwybyddiaeth y disgyblion o'u treftadaeth leol/Gymreig. Cafodd y digwyddiadau eu hymchwilio'n fanwl iawn a'u cyflwyno trwy chwarae rôl trwy gyfrwng arfwisg fenthyg a chasgliad o arfau canoloesol.

Enillwyr Gwobrau 2015 Y Categori Arbennig

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £1000



YSGOL MAES Y COED
Castell Nedd Port Talbot

Teitl: Stain glass /
Gwydr Lliw

Dechreuodd y prosiect arloesol a chyfoethog hwn wrth i'r holl ddisgyblion ymweld â'r ffenestr liw i goffáu Donald Coleman mewn eglwys yng Nghastell Nedd. Roedd yr eglwys yn adlewyrchu gyrfau wleidyddol a diddordebau cyn Aelod Seneddol Castell Nedd. Gwnaeth y disgyblion gopi maint llawn o'r ffenestr ac yna ymchwilion nhw agweddau ohoni.

Defnyddiodd grwpiau gwahanol y syniad o ffenestr liw i ddehongli eu hanes a'u treftadaeth leol. Cynhyrchwyd paneli yn archwilio Abaty Nedd, castell Castell Nedd, y dociau a thŵr Brunel yn Llansawel, gerddi Fictoraidd y Gnoll, ffenestr liw John Petts yn eglwys Dewi Sant, Neuadd y Brangwyn, darluniau Turner o Abaty Nedd a'r diwydiant copr yn Abertawe. Cyfoethogodd ymweliadau wedi'u cynllunio'n dda brofiadau'r disgyblion yn sylweddol a gallent ddisgrifio sut mae'r lleoedd hyn wedi newid dros amser. Gwnaethant fodolau o adeiladau a chynhyrchwyd gwaith celf yn cynnwys elfennau synhwyraidd.

Roedd gwaith pob dosbarth wedi ei arddangos ar hyd a lled yr ysgol a bydd yn ganollbwynt diwrnod agored i rieni a chyfeillion Ysgol Maes y Coed.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £1000



YSGOL PORTFIELD
Sir Benfro

Teitl: **‘Pembrokeshire’s got talent’: Authors & Stories /**
‘Mae gan Sir Benfro dalent’: Awduron a Storiâu

Roedd 17 dosbarth wedi cyfrannu at y prosiect rhagorol hwn, pob un ohonynt yn gwneud ‘prosiect bychan’ tuag at thema’r ysgol gyfan. Bu’r disgyblion yn astudio yn y llyfrgell leol, yn siarad â thrigolion lleol, yn ymweld â lleoedd yn gysylltiedig â’r llyfrau ac yn casglu ffotograffau a gwrthrychau. Ymwelodd côr lleol â’r ysgol i ganu a darllen storiâu.

Prosiect trawsgwricwlaidd oedd hwn a defnyddiodd y disgyblion amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys drama, dweud storiâu a chelf. Defnyddiwyd TGCh i wneud llyfrau gwaith a storiâu clicker.

Mae arddangosfeydd lliwgar a pherthnasol ar furiau’r coridorau a’r ystafelloedd dosbarth, a gallai’r disgyblion siarad yn hyderus ac arddangos eu gwybodaeth a’u sgiliau. Rhoddodd gwasanaethau ysgol gyfleoedd i ddisgyblion dosbarthiadau eraill rannu eu gwaith a’u mwynhad.

Rhwng popeth mae’r gwaith hwn a’i effaith ar ddiddordeb a dysgu’r disgyblion wedi llwyr gyfiawnhau ymdrechion y staff i greu amgylchfyd dysgu cyffrous.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £500



YSGOL PEN COCH
Sir y Fflint

Teitl: **Symbolic Places – St Winifride’s Well /**
Lleoedd Symbolaidd - Ffynnon y Santes Gwenffrewi

Fel rhan o’u hwythnos dreftadaeth Gymreig, dysgodd disgyblion Ysgol Pen Coch am Santes Gwenffrewi ac ymwelon nhw â’i ffynnon yn Nhreffynnon. Ysbrydolodd hyn rychwant o weithgareddau o safon uchel. Mae’r disgyblion yn gallu cofio’r stori yn dda, a chan ddefnyddio geirfa briodol, yn trafod ac yn disgrifio’n hyderus yr hyn sydd i’w weld yn y ffynnon. Adlewyrchwyd hyn yn eu cyflwyniadau ardderchog, yn cynnwys drama, model 3D o’r ffynnon, collage o’r safle a llyfr stori a arluniwyd gan y disgyblion.

Rhannodd y disgyblion y stori gyda’r gymuned leol mewn gwasanaeth arbennig ac yn eu heisteddfod. Cyhoeddwyd erthygl yn cynnwys gwaith y disgyblion yn y *Flintshire Leader*, rhannodd yr athrawon eu gwaith yn y *TES* a gellir gweld eu drama ar *Youtube*.

Grŵp Admiral ccc
Gwobr: £500



YSGOL HEOL GOFFA
Sir Gaerfyrddin

Teitl: Foods in Wales / Bwydydd yng Nghymru

Yn y prosiect hwn bu pob dosbarth yn astudio bwydydd Cymreig traddodiadol gwahanol. Ymchwiliodd y disgyblion hanes y bwydydd, ymwelon nhw â marchnad Llanelli ac archfarchnadoedd, darganfuon nhw ryseitiau ar y Rhynggrwyd a chawsant gyfle i wneud y bwydydd dethol a'u blasu. Darparodd y disgyblion furluniau a osodaï'r bwydydd yn eu cyd-destun Cymreig, gan ddefnyddio gwaith celf a sgiliau ysgrifennu. Gwahoddwyd rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i Ddiwrnod Marchnad yn yr ysgol i rannu'r ryseitiau.

At hyn bu disgyblion yn cymharu a chyferbynnu bwydydd traddodiadol Cymreig â bwydydd Ewropeaidd traddodiadol. Trwy brosiect Comenius maent wedi cysylltu â disgyblion o wledydd eraill yn Ewrop, ac ar ymweliadau â Chyprus, Awstria ac Iwerddon maent wedi cyfnewid bwydydd traddodiadol, gan hyrwyddo'u dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill.


Gwobr Goffa Catherine a Daniel Phillips
Gwobr: £250

YSGOL GYMUNEDOL SANT CHRISTOPHER
Wrecsam

Teitl: Honouring Our Local Heroes /
Anrhydeddu Ein Harwyr Lleol

Bu'r ysgol gyfan yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru, gan dynnu ar chwedlau a thraddodiadau lleol a chenedlaethol. Roedd y pynciau a ddewiswyd, ac roedd eu hagwedd at eu cyflwyniad yn adlewyrchu diddordebau a galluoedd y disgyblion, ac roedd yr ysgol gyfan yn llawn o enghreifftiau o'u gwaith mewn ystod o gyfryngau. Daeth y prosiect i ben gydag ymweliad gan Faer a Maeres Wrecsam, ynghyd â chynrychiolwyr o'r gymuned leol, i ddiwrnod agored yn yr ysgol gyda chyflwyniad o waith y disgyblion.

Syr Julian Hodge
(Sefydliad Jane Hodge)
Gwobr: £100



YSGOL MAES HYFRYD

Sir y Fflint

Teitl: **Fantastic Flint and the Surrounding Area /
Fflint Ffantastig a'r Cylch**

Canolbwyntiodd y prosiect ar nifer o ymweliadau a drefnwyd i safleoedd yn ac o gwmpas y dref er mwyn cyflwyno'r disgyblion i dreftadaeth y Fflint. Ymwelon nhw â chastell Fflint a mwynheuron nhw daith o gwmpas Siambr Cyngor y Fflint gyda'r Maer, lle dysgon nhw am ei waith a chael cyfle i chwarae rôl. Rhoddodd ymweliad â Chanolfan Hamdden Jade Jones gyfle i weld y bocs postio aur i'w hanrhydeddu am ennill medal aur yn y gemau Olympaidd.

Yn dilyn eu hymweliadau a gwaith ymchwil yn ôl yn y dosbarth, dewisodd pob plentyn ei hoff le i greu poster i lliwgar i ddathlu treftadaeth y Fflint.

TARIANNAU

Cyflwynir tariannau Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i'r prosiect gorau ym mhob categori

**Y Cyfnod Sylfaen
YSGOL GYNRADD BAGLAN**

**Ysgol Gynradd
YSGOL GYNRADD ALBANY ROAD ac YSGOL
WIRFODDOL GYMORTHEDIG PENBOYR**

**Y Categori Arbennig
YSGOL MAES y COED**

**Ysgol Uwchradd
YSGOL GYFUN MAES GARMON**

Gwobr Eustory



YSGOL GYFUN TREORCI

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn aelod o Rwydwaith EUSTORY o wledydd yn Ewrop sy'n trefnu prosiectau a chystadlaethau hanes/treftadaeth. Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn cynrychioli Cymru, a hi yw'r unig aelod yn Eustory o'r DU, mewn partneriaeth â Phwyllgor Gwobrau'r Fenter Treftadaeth sy'n cyflwyno gwobr flynyddol i ysgol ddewisol i alluogi myfyrwyr i ymweld â'u cymheiriaid ar draws Ewrop ac i ddatblygu cysylltiadau hirdymor. Ymhlith y gwledydd sy'n cymryd rhan mae'r Almaen, Gwlad Pwyl, Wcráin, Rwsia, Slofenia, Belarus, Bwlgaria, Norwy, Estonia, Latfia, Slofacia, Rwmania, y Weriniaeth Tsiec, Sbaen, yr Eidal a'r Swistir.

Eleni bydd myfyrwyr yr ysgol arobryn yn mynychu Academi Ewropeaidd yng Ngwlad Pwyl. Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig wedi sefydlu cysylltiadau cryfion â gwledydd yn Ewrop trwy gyfrwng Rhwydwaith EUSTORY. Mae aelodau wedi mynychu cynadleddau blynyddol y rhwydwaith.